

Megan a'r Ddraig Fach

Llyfr 1



sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

Ariennir gan
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government



Play to
Learn
Chwarae
i Ddysgu



chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Her
Iechyd
Cymru Health
Challenge
Wales

Mae'r llyfr hwn yn rhan o'r adnodd 'Chwarae i Ddysgu' sydd wedi'i ysgrifennu i hybu gwaith cyflwyno Datblygiad Corfforol a Symud Creadigol yn y Cyfnod Sylfaen.

Nod y gyfres o lyfrau yw cymell plant i wneud gweithgareddau corfforol a dod yn fwy medrus. Tynnir sylw at ystod o sgiliau corfforol trwy'r straeon drwyddi draw er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.



Mae Llyfr 1 – Megan a'r Ddraig Fach yn datblygu'r sgiliau canlynol:

Symud
Cropian, Cerdded, Rhedeg, Neidio a Glanio, Llamu

Rheoli'r Corff
Cadw cydbwysedd (ar un droed), Dringo, Gwthio Gwrthrych,
Rholio'n Unionsyth, Tynnu Gwrthrych

Trafod a Thrin
Dal Gwrthrych

Unwaith y byddwch chi wedi darllen y llyfr hwn, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n helpu plant i archwilio symudiadau posibl mewn straeon eraill.

Diolchiadau

Ysgrifennwyd gan:

Jan Gadd
Sheila Meadows
Nia Richards a Sharne Watkins (Ysgol Addysg Caerdydd, UWIC)
ar y cyd â Chyngor Chwaraeon Cymru

Rheolwyd y prosiect a gwnaethpwyd y gwaith cyfarwyddo creadigol,
dylunio a chynhyrchu gan:

Brand/68, www.brand68.com. Darluniau gan Simon Bradbury

Cyfieithwyd gan:

Cyfaith, ar y cyd â Nia Richards (Ysgol Addysg Caerdydd, UWIC)

© Hawlfraint (Llywodraeth Cynulliad Cymru) 2009. Cedwir pob hawl.

Ni ellir atgynhyrchu unrhyw rannau o'r adnodd hwn, ac ni ellir eu storio mewn system adfer na'u trosglwyddo ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw fodd - boed yn electronig neu'n beiriannol, wedi'u llungopi, eu recordio neu fel arall - heb gael caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Megan
a'r
Ddraig Fach

Llyfr 1



Roedd Megan yn helpu ei thad i dacluso'r garej. Roedd hi'n **cropian** i mewn ac allan o'r bocsys pan ddaeth o hyd i ŵy mawr glas a oedd yn llwch i gyd.

“Waw! Beth yw hwn?” meddyliodd Megan gan roi'r ŵy yn ei phoced.





Yn nes ymlaen pan oedd hi'n amser gwely a Megan yn brwsio ei dannedd, clywodd sŵn tapio uchel. Roedd y sŵn yn dod o'r ŵy. Tap... tap... tap. Rholiodd yr ŵy a siglodd a siglodd a rholiodd. Rhedodd Megan a dal yr ŵy.

Plygodd Megan i lawr a rhoi'r ŵy ar y llawr yn ofalus. Yn sydyn, clywodd glec uchel a gwelodd law fach goch yn pwnio trwy'r plisgyn. Roedd y llaw'n ysgwyd ac yn ymestyn ac yn ymestyn ac yn ysgwyd. Draig fach oedd hi!



Roedd Megan wedi'i swyno, a chododd ei llaw i gyffwrdd â'r ddraig. Cododd y ddraig ei llaw hefyd. Tynnodd Megan ei thafod allan, a chopiodd y ddraig fach hi. Roedd y ddraig yn gwneud popeth yr oedd Megan yn ei wneud.



Roedd hi'n hwyr erbyn hyn, ac roedd Megan wedi blino. Agorodd ei cheg gan ymestyn ei breichiau. Ymestynnodd y ddraig ei breichiau gan agor ei cheg. Cyrliodd Megan ei chorff yn belen a chaeodd ei llygaid er mwyn dangos i'r ddraig ei bod yn amser mynd i'r gwely.

“Nos da,” sibrydodd. Cyrliodd y ddraig ei chorff yn belen a chau ei llygaid hefyd.



Cymerodd Megan un cip bach arall ar y ddraig fach. Aeth i gysgu gan feddwl tybed beth fyddai ei ffrind newydd yn ei fwyta i frechwast, a beth fyddai Mam yn ei ddweud am gael draig yn byw yn y tŷ.



Y bore wedyn, neidiodd Megan allan o'r gwely. "Ble mae'r ddraig?" meddyliodd. Roedd y ddraig wedi dihuno'n barod ac yn archwilio ei sliperi. Llithrodd Megan y ddraig allan o'i sliperi a'u gwisgo am ei thraed. Copiodd y ddraig wrth i Megan **gadw cydbwysedd ar un droed** ac yna'r llall. Collodd y ddraig ei chydbwysedd a chwympodd. Cododd Megan y ddraig gan chwerthin a'i rhoi yn ei phoced i'w chadw'n saff.



Wiglodd a gwingodd a gwingodd a wiglodd
y ddraig trwy gydol amser brecwast.
Eisteddodd Megan yn syth iawn ac yn
llonydd iawn gan obeithio na fyddai Mam
yn darganfod ei ffrind.





Ar ôl brechwast, aethon nhw allan i chwarae. Rhoddodd Megan y ddraig yn ei phram doli a guthiodd ef i waelod yr ardd. Yna, cododd y ddraig a'i gosod ar y lawnt. Neidiodd y ddraig mewn ofn wrth i'w thraed gyffwrdd â'r gwair oer a gwlyb.


Cwmpodd y ddraig wrth lanio, gan rolio i lawr y llethr tuag at y domen gompost. Tynnodd Megan y ddraig yn ôl ar ei thraed yn ofalus.

“Mae Mrs Jones yn dweud y dylen ni blygu ein pengliniau wrth lanio bob amser er mwyn i ni beidio â brifo,” meddai Megan gan wenu.





Bu Megan a'r ddraig yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus. Roedd y ddraig yn copio Megan ac roedd Megan yn copio'r ddraig. **Cerdded, rhedeg, ymestyn, plygu, symud ymlaen, yn ôl ac i'r ochr, yn gyflym ac yn araf.** Wrth iddyn nhw **neidio**, roedd y ddraig yn cofio plygu ei phengliniau bob tro wrth **lanio**.



Dechreuodd y ddraig chwipio a chwifio a chwifio a chwipio'i chynffon. Edrychodd Megan y tu ôl iddi, cododd ei hysgwyddau, a wiglodd ei phen-ôl. Chwarddodd y ddwy.



Sylwodd Megan eu bod nhw mor wahanol!
Roedd gan y ddraig gynffon hir a chryf,
cefn cennog ac... ADENYDD!

“Sgwn i...,” meddyliodd Megan i’w hunan.

Rhedodd Megan o gwmpas yn chwifio'i breichiau gan obeithio y byddai'r ddraig yn ei chopio. A dyna ddigwyddodd! Chwifiodd y ddraig ei hadenydd yn araf i ddechrau, ac yna'n gynt ac yn gynt. Gan gymryd un llam mawr roedd hi'n hedfan.



Rhedodd Megan mor gyflym ag y gallai at wal yr ardd. Gan ddringo'n ofalus, gwylodd yn geg agored wrth i'r ddraig droi a phlymio a phlymio a throi.



Roedd y ddraig yn hedfan i gyfeiriad y mynyddoedd. Chwifiodd ei llaw a chwifiodd Megan ei llaw yn ôl arni, ond erbyn hynny dim ond smotyn yn y pellter oedd y ddraig fach.





Cerddodd Megan yn ôl i'r tŷ yn araf gan deimlo'n ddigalon. Fyddai hi byth yn gweld y ddraig fach eto?



Y noson honno, wrth i Megan gyrlio ei chorff yn belen yn y gwely, clywodd tap... tap... tap ar y ffenest.

“Waw! Rwyf ti’n ôl!” ebychodd Megan. Cydiodd y ddwy yn ei gilydd gan gofleidio a dawnsio a dawnsio a chofleidio.

Wrth iddyn nhw fynd i gysgu, meddyliodd Megan pa anturiaethau y bydden nhw'n eu cael yfory.



